Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2022-23

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk



Darlith 4

Dydd Iau 27ain o Hydref 2022

Nod y ddarlith

- Edrych yn fanylach ar **enwau** yn Gymraeg

- Datblygu dealltwriaeth am effaith cenedl yr enw ar ramadeg yr iaith gyda'r nod o wella'n cywirdeb llafar a chodi safonau llythrennedd y plant.

Beth ydy ‘enw’?

- Enw (noun) ydy peth/gwrthrych.

  Fel arfer yn rhywbeth ry’n ni’n gallu ei weld e.e. cadair, llyfr, drws.

  Mae enwau haniaethol yn rhai dydyn ni ddim yn gallu eu gweld e.e. cariad, hiraeth.

Mathau o enwau

- **Enw cyffredin** yw'r ateb i'r cwestiwn Beth? Bydd yn dechrau â llythyren fach, e.e. ci, persawr.

- **Enw priod** yw'r ateb i'r cwestiynau Pwy? a Ble?. Bydd yn dechrau â phrif lythyren, e.e. Bangor, Tomos, Pobol y Cwm.

- Rydyn ni'n gallu ymateb i **enw diriaethol** gydag un o'r pum synnwyr (gweld, clywed, arogli, teimlo, blasu), e.e. cadair, teulu.

- Rhyw fath o syniad yw **enw haniaethol**. Dydyn ni ddim yn gallu ymateb iddo gydag un o'r pum synnwyr, e.e. hiraeth.

- **Enw torfol** yw'r enw ar grŵp o bobl neu bethau, e.e. byddin o filwyr, diadell o ddefaid.

Yn y Gymraeg, fel y Ffrangeg (ac ieithoedd eraill), mae pob enw naill ai'n wrywaidd neu'n fenywaidd neu'n enw lluosog.

Bydd y geiriadur yn dweud wrthyn ni ydyn nhw'n fenywaidd neu'n wrywaidd…

coeden

eb

tree

Geiriadur Cyffredinol Cysgair

ci

eg

dog

Geiriadur Cyffredinol Cysgair

Rhybudd!

Er gwybodaeth, mae cenedl rhai geiriau yn amrywio yn ôl ardal neu dafodiaith.

Er enghraifft, mae'r gair *munud* yn tueddu i fod yn wrywaidd yn y Gogledd ac yn fenywaidd yn y De.

Gogledd – dau funud; y munud hwnnw
De – dwy funud; y funud honno

munud
(2)

cofnodion sy'n **cyfateb** i '***munud***'

munud

eg/b
minute

Geiriadur Cyffredinol Cysgair

munud eg/b munudau minute n
Y Termiadur Addysg - Ffiseg a Mathemateg

Cofiwch hefyd feddwl am <u>genedl y gair</u> yn hytrach na'r person,

e.e. disgybl *eg* plentyn *eg*
pennaeth *eg* bardd *eg*

Wrth gwrs bydd gan rai enwau ffurfiau benywaidd a gwrywaidd
e.e. awdur / awdures

Pam bo gwybod beth ydy cenedl yr enw yn bwysig?

Nodwch gymaint o resymau â phosib pam rydyn ni angen gwybod beth yw cenedl enw.

Benywaidd / Gwrywaidd
Pwysigrwydd Cenedl Enw

ADRODDIAD- eg

- Treuliwyd chwe mis yn rhoi'r **adroddiad hwn** at ei gilydd.
- Mae'n adroddiad **c**ynhwysfawr, **d**iddorol ac eang **ei apêl**.
- Bydd pawb sy'n **ei ddarllen** yn cael budd mawr **ohono**.

DOGFEN- eb

- ….y ddogfen **hon**….
- ….ddogfen **g**ynhwysfawr, **dd**iddorol ac eang **ei hapêl**
- …. sy'n **ei darllen** yn cael budd mawr **ohoni**.

Ysgrifennwch 10 enw unigol fyddech chi'n gweld mewn ystafell ddosbarth

Nawr gwiriwch ydyn nhw'n fenywaidd neu'n wrywaidd.



Defnyddiwch eiriadur.



Y fannod

Yn y Gymraeg mae **tair ffurf i'r fannod bendant**

(*the* yn Saesneg):

- **y** o flaen pob cytsain ond 'h', e.e. y ci
- **yr** o flaen pob llafariad a 'h', e.e. yr afal, yr haul
- **'r** ar ôl gair sy'n gorffen mewn llafariad, e.e. Gwelais i'r gath.

y + enw benywaidd unigol

Treiglad meddal ar ôl 'y' *:*

y gadair
y brifathrawes
y daith
y wers
y freuddwyd

y ddawns
y fam

OND: X **ll / rh**

y **ll**ygoden
y **rh**aglen

Defnyddio y / 'r = the

y + enw gwrywaidd

DIM treiglad

y cwrs
y papur
y trên

y gliniadur
y bwyd
y drws

y llyfr
y mwydyn
y rhedwr

y + enw lluosog

DIM treiglad = DIM CENEDL/ *GENDER*

y cadeiriau
y pensiliau
y teithiau

y gwersi
y bwydydd
y dogfennau

y llygod
y merched
y rhaglenni

Cyfieithwch…

- the pupil
- the desk
- the cat
- the sheet (taflen)
- the husband
- the girls
- the lessons

- y disgybl
- y ddesg
- y gath
- y daflen
- y gŵr
- y merched
- y gwersi

Byddwch yn ofalus gydag enwau benywaidd sy'n dechrau gyda ll neu rh…

Ni threiglwn *ll* na *rh* – rhaid cofio hyn, ar ôl…

yn
y
mor
cyn
un .

y llygoden (*eb*)
y rhestr (*eb*)

y + enw benywaidd unigol

Treiglad meddal ar ôl 'y' *:*

y gadair
y brifathrawes
y daith
y wers
y freuddwyd

y ddawns
y fam

OND: X **ll / rh**

y **ll**ygoden
y **rh**aglen

Defnyddio y / 'r = the

y + enw gwrywaidd

DIM treiglad

y cwrs
y papur
y trên

y gliniadur
y bwyd
y drws

y llyfr
y mwydyn
y rhedwr

y + enw lluosog

DIM treiglad = DIM CENEDL/ *GENDER*

y cadeiriau
y pensiliau
y teithiau

y gwersi
y bwydydd
y dogfennau

y llygod
y merched
y rhaglenni

Sut ydyn ni'n gwybod a ydy geiriau'n fenywaidd neu'n wrywaidd?

Mae cliwiau ar gael...

MAE'R TERFYNIADAU HYN FEL ARFER YN WRYWAIDD

-awd (traethawd)

-aint (maint)

-tid/did (ieuenctid)

-rwydd (distawrwydd)

-adur (cyfrifiadur)

-wr (chwaraewr)

-edd (mawredd)

-yn (offeryn)

-iad (mynediad)

-deb (undeb)

MAE'R TERFYNIADAU HYN FEL ARFER YN FENYWAIDD

-aeth (barddoniaeth)

-fa (campfa)

-en (seren)

-ach (cyfrinach)

- as (cymwynas)



-es (ysgrifenyddes)

-ell (llinell)

-eb (anfoneb)

-eg (dameg)

Tasg

Ar y daflen eirfa sydd ar Moodle, nodwch beth yw cenedl y geiriau hyn trwy eu lliwio/uwcholeu o neu nodi eg/eb yn y bocsys.

rheol	amserlen	llyfr	pennod	arbrawf
wythnos	cadair	bwrdd	tudalen	brawddeg
camgymeriad	cloch	pêl	cofrestr	ystafell
ysgol	cwestiwn	desg	cyfrifiadur	dogfen
tasg	ffeil	disgybl	llinell	diwrnod
ffilm	dosbarth	pâr	gair	plentyn
grŵp	gwers	taflen	gwlad	prawf

ATEBION

rheol	amserlen	llyfr	pennod	arbrawf
wythnos	cadair	bwrdd	tudalen	brawddeg
camgymeriad	cloch	pêl	cofrestr	ystafell
ysgol	cwestiwn	desg	cyfrifiadur	dogfen
tasg	ffeil	disgybl	llinell	diwrnod
ffilm	dosbarth	pâr	gair	plentyn
grŵp	gwers	taflen	gwlad	prawf

Hwn a hon a hyn!

- Y ferch hon
- Y bachgen hwn
- Y ddesg hon
- Y bwrdd hwn
- Y clustogau hyn

Defnyddiwch HON ar ôl neu yn lle enw benywaidd unigol.
Defnyddiwch HWN ar ôl neu yn lle enw gwrywaidd unigol.

Rhowch HWN neu HON yn y bylchau yn y brawddegau hyn:

1. ‘_____ ydy’r fuwch rydw i am ei phrynu,’ meddai’r ffermwr.

2. ‘Mae’n gas gen i’r athro _____, ’dywedodd Gill pan welodd Mr Wilff.

3. Bydd yn rhaid i mam olchi’r sgert ____ cyn yfory.

4. Y ddinas ____ yw’r un fwyaf yn y byd.

5. Dydy’r gêm ___ ddim yn werth dod i’w gweld.

6. Y dafarn ___ ydy’r un agosaf i’m cartref.

7. ‘___ ydy’r car oedd tu allan i’r tŷ.

8. ‘___ ydy’r gyfres orau, heb os,’ dywedodd mam-gu am ei ffefryn – EastEnders!

9. ‘Mae’r wlad ___ yn eiddo i ti a mi,’ yw rhai o eiriau enwocaf Dafydd Iwan.

10. Yn y clwb ___ y dechreuodd Y Beatles ganu cyn i mi gael fy ngeni.

Gwrywaidd

Dim treiglad ar ôl 'y':

y **b**achgen
y **c**oleg
y **d**rws

Ansoddair ddim yn treiglo ar ôl enw gwrywaidd:

y bachgen **da**
y coleg **mawr**
y drws **melyn**

Rhifau Mr + y gair:

dau + TM
tri + TLl
pedwar + x

Gwr neu Ben?

Benywaidd

Treiglad meddal ar ôl 'y':

y ferch
y ddesg
y gath

Ond x 'll/rh' – y rhaglen

Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd

y ferch **glyfar**
y ddesg **fawr**
y gath **ddu**

Rhifau Mrs + y gair:

dwy + TM
tair + X
pedair + X

RHIFO

un ci	un gath
dau gi	dwy gath
tri chi	tair cath
pedwar ci	pedair cath
pum ci	pum cath
chwe chi	chwe chath

Cyfri yn y dosbarth…

Cyfri gwrthrychau gwrywaidd…

Un ci
Dau gi – TM
Tri chi - TLI
Pedwar ci
Pum ci
Chwe **chi** - TLI

Cyfri gwrthrychau benywaidd…

Un **gath** – TM
Dwy gath – TM
Tair cath
Pedair cath
Pum cath
Chwe **chath** - TLI



https://adnoddau.canolfanpeniarth.org/matiau_gramadeg/?t=9

Treiglwch y geiriau sy'n dilyn 1, 2, 3 a 6 yn y brawddegau yma.
Rhowch y ffigurau mewn geiriau. Cofiwch ddefnyddio'r gwrywaidd neu'r benywaidd.

1. Sylweddolais fod gan y disgybl druan 2 problem – ni allai wrando nac
eistedd yn llonydd!
2. Oes angen newid y dywediad, 'Tri chynnig i Gymro' i '6 cynnig i Gymro?'
3. Mae'n rhaid defnyddio 2 tiwb prawf i wneud yr arbrawf.
4. Yn ôl yr hen ddihareb, '1 gwennol ni wna wanwyn.'
5. Roedd y 6 camlas yn uno â'i gilydd ger Manceinion.
6. 3 tŷ oedd i fod yn y llun ond roedd yn rhy haniaethol i mi allu gweld un!
7. Rydym yn cael 2 gwers Addysg Gorfforol ar bnawn dydd Llun.
8. 6 punt yr awr oedd fy nghyflog am weithio yn y caffi.

Treiglwch y geiriau sy'n dilyn 1, 2, 3 a 6 yn y brawddegau yma.
Rhowch y ffigurau mewn geiriau. Cofiwch ddefnyddio'r gwrywaidd neu'r benywaidd.

1. Sylweddolais fod gan y disgybl druan ddwy broblem – ni allai wrando nac eistedd yn llonydd!
2. Oes angen newid y dywediad, 'Tri chynnig i Gymro' i 'chwe chynnig i Gymro?'
3. Mae'n rhaid defnyddio dau diwb prawf i wneud yr arbrawf.
4. Yn ôl yr hen ddihareb, 'un wennol ni wna wanwyn.'
5. Roedd y chwe chamlas yn uno â'i gilydd ger Manceinion.
6. Tri thŷ oedd i fod yn y llun ond roedd yn rhy haniaethol i mi allu gweld un!
7. Rydym yn cael dwy wers Addysg Gorfforol ar bnawn dydd Llun.
8. Chwe phunt yr awr oedd fy nghyflog am weithio yn y caffi.

Tasg gwaith grŵp



- Yn eich grwpiau, penderfynwch ar bwnc, thema neu faes astudio a meddyliwch am enwau perthnasol i'r thema honno.

- Gwnewch restr ohonyn nhw ac edrychwch yn y geiriadur i weld os ydyn nhw'n wrywaidd neu fenywaidd.

Templed ar Moodle

ADOLYGU CENEDL ENWAU

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Disgrifio gwrthrychau

Pan fydd ansoddair yn disgrifio enw benywaidd bydd yn treiglo'n feddal..

merch + tal = merch dal

bachgen + tal = bachgen tal

nofel + da = nofel dda

llyfr + da = llyfr da

Ond: merched + pwysig = merched pwysig

Ansoddeiriau benywaidd

Bydd gan rai ansoddeiriau ffurfiau benywaidd a lluosog i’w defnyddio wrth ddisgrifio enwau benywaidd ac enwau lluosog.

het **wen**

deilen **werdd**

adar **gleision**

Ansoddeiriau benywaidd eraill…

melyn > melen

dwy seren **f**elen

tlws > tlos

y fodrwy **d**los

byr > ber

rhestr **f**er



dwfn > dofn

yr afon **dd**ofn

Camgymeriad cyffredin…

Roedd y bachgen yn cario ei bapur e.

Roedd y ferch yn cario ei phapur hi.

Mae gan ‘ei’ ei reolau treiglo ei hun:
Ei (his) = TM
Ei (hers) = TLl

ei

Dydy’r rheolau hyn ddim yn dibynnu ar genedl yr enw sy’n dilyn ‘ei’.

Ymarferion yn y dosbarth



https://gwellar-gair.peniarth.cymru/

Pa un sy'n gywir?

Pa un sy’n gywir?

Y canolfan

Y ganolfan

Pa un sy’n gywir?

Y gwaith

Y waith

Pa un sy’n gywir?

Y desg

Y ddesg

Pa un sy’n gywir?

Y bennaeth

Y pennaeth

Pa un sy’n gywir?

Y fynedfa

Y mynedfa

Pa un sy’n gywir?

Y blentyn

Y plentyn

Pa un sy’n gywir?

Y bêl

Y pêl

Pa un sy’n gywir?

Y farn

Y barn

Tasg gyfeiriol – cyn y ddarlith nesaf.

https://forms.office.com/r/sd0kXFRm5N